Arweiniad atodol ar arolygu materion llwyth gwaith ac ailfodelu, gan gynnwys cyflwyno amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)

Chwefror 2006

Estyn
Rhagoriaeth i bawb.....Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2005: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Trosolwg o newidiadau arfaethedig **2**

Arweiniad pellach **3**

Tasgau gweinyddol a chlercyddol 3
Cydbwysedd gwaith/bywyd 4
Amser arweinyddiaeth a rheolaeth 4
Cyflenwi ar gyfer athrawon absennol 4
Goruchwylio arholiadau 5
Amser cynllunio, paratoi ac asesu 5
Amser neilltuedig ar gyfer swydd pennaeth 5

Goblygiadau i arolygu **6**

Ffynonellau tystiolaeth **9**

Arweiniad atodol ar arolygu materion llwyth gwaith ac ailfodelu, gan gynnwys cyflwyno amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)

Beth mae'n ei olygu?
Arolygu materion llwyth gwaith ac ailfodelu, gan gynnwys cyflwyno amser cynllunio, paratoi ac asesu.

Ar gyfer pwy mae'r arweiniad?
Ysgolion
Arolygwyr gan gynnwys AEM ac arolygwyr cofrestredig
Contractwyr

Pryd ddylid cyflwyno'r arweiniad?
Ar unwaith

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2006

Cyflwyniad

Cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau 'Codi safonau a mynd i'r afael â llwyth gwaith: cytundeb cenedlaethol' ym mis Ionawr 2003. Nododd y ddogfen argymhellion i leihau llwyth gwaith athrawon a gwella ansawdd addysg mewn ysgolion, trwy ailfodelu'r gweithlu ysgolion. Mae'r strategaeth hon yn darparu sicrwydd o amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) i athrawon.

Mae'r arweiniad atodol hwn yn rhoi gwybodaeth am:

- y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol er 2003;
- y modd y mae ysgolion yn ymateb i'r rhain; ac
- y modd y dylai arolygwyr arolygu ac adrodd am yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion.

Trosolwg o'r newidiadau arfaethedig

Llai o dasgau clercyddol a gweinyddol yn cael eu gwneud gan athrawon.

Gwell cydbwysedd gwaith/bywyd i athrawon a phenaethiaid.

Amser arweinyddiaeth a rheolaeth i arweinwyr ysgol.

Terfyn ar faint o amser y mae'n rhaid i athrawon ei dreulio yn cyflenwi ar gyfer athrawon absennol.

Dim goruchwylio arholiadau allanol.

Sicrwydd o 10% o amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) i athrawon.

Amser neilltuedig ar gyfer cyfrifoldebau arweinyddiaeth penaethiaid.

Newidiadau rôl i rai staff cymorth.

Arweiniad pellach

Mae'r canlynol yn rhestru'r newidiadau yr roedd rhaid i ysgolion eu rhoi ar waith, yn nhrefn amser.

O 2003

1 Tasgau gweinyddol a chlercyddol

Nid oes rhaid i athrawon ymgymryd â thasgau gweinyddol a chlercyddol rheolaidd[1].

Nid oes gan athrawon opsiwn i "ddewis" parhau i wneud y tasgau hyn gan nad yw'n ddefnydd priodol o'u hamser.

Gwneir y newidiadau er mwyn i athrawon dreulio mwy o'u hamser ar dasgau addysgu proffesiynol o ansawdd uchel.

Mae'r newidiadau a adlewyrchir yn y darpariaethau cyfreithiol yn gymwys i bob athro mewn ysgol.

Mae angen gwneud trefniadau eraill mewn ysgolion ar gyfer unrhyw dasg weinyddol sy'n cael ei chyflawni gan athro ar hyn o bryd nad yw'n gofyn am fedrau neu farnau proffesiynol.

Mae enghreifftiau o dasgau gweinyddol a chlercyddol yn cynnwys:

- casglu arian;
- llungopïo nifer sylweddol o ddeunyddiau;
- llunio rhestri dosbarth;
- gosod arddangosiadau yn yr ystafell ddosbarth;
- mynd ar drywydd absenoldebau;
- dadansoddi ffigurau presenoldeb; a
- chynhyrchu llythyrau safonol, er enghraifft, llythyrau'n hysbysu rhieni am amrywiol ddigwyddiadau yn yr ysgol.

[1] Nid oes rhaid cyflawni tasgau yn ddyddiol i'w dosbarthu fel rhai rheolaidd. Efallai y bydd rhai tasgau, fel coladu adroddiadau, yn cael eu gwneud unwaith y flwyddyn yn unig, ond cânt eu dosbarthu fel tasgau rheolaidd o hyd.

2 Cydbwysedd gwaith/bywyd

Dylai pob athro a phennaeth fwynhau cydbwysedd realistig o ran bywyd/gwaith.

Mae cydbwysedd bywyd/gwaith yn golygu helpu athrawon i gyfuno gwaith â'u diddordebau personol y tu allan i'r gwaith.

Mae'n rhaid i oriau ychwanegol i athrawon, ar ben y 1265 blynyddol, fod yn rhesymol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer oriau rhesymol ar gyfer penaethiaid yn ogystal, er eu bod nhw'n cyfeirio'u gwaith eu hunain i raddau helaeth.

Mae rhwymedigaeth ar y corff llywodraethol i helpu sicrhau nad yw penaethiaid yn gweithio oriau afresymol.

Bydd cynnal cydbwysedd bywyd/gwaith effeithiol mewn ysgolion yn gofyn am fonitro ac arfarnu pwysau gwaith yn barhaus.

3 Amser arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae dyrannu amser arweinyddiaeth a rheolaeth yn ychwanegol at amser CPA.

Mae hawl gan y pennaeth a'r holl athrawon eraill yn yr ysgol sydd â chyfrifoldebau arweinyddiaeth a rheolaeth, i gael dyraniad rhesymol o amser arweinyddiaeth a rheolaeth o fewn sesiynau ysgol.

Er mwyn i'r amser fod yn ystyrlon, ni ddylid ei ddyrannu mewn blociau byr.

O 2004

1 Cyflenwi ar gyfer athrawon absennol

Nid ystyrir bod llanw dros athrawon absennol yn ddefnydd effeithiol o amser.

Ni ddylai athrawon dreulio mwy na 38 awr y flwyddyn academaidd yn cyflenwi ar gyfer athrawon absennol.

Mae'n rhaid i ysgolion rannu'r gwaith cyflenwi'n deg rhwng staff.

Os yw ysgol yn defnyddio staff nad ydynt yn athrawon cymwys i gyflenwi ar gyfer absenoldeb athro dros gyfnod byr, dylai'r pennaeth sicrhau bod unrhyw un a ddefnyddir yn y modd hwn wedi'i hyfforddi'n briodol.

Yr unig eithriadau i'r cyfyngiad contractiol hwn yw athrawon sydd wedi'u cyflogi'n gyfan gwbl neu'n bennaf i wneud gwaith cyflenwi.

O 2005

1 Goruchwylio arholiadau

Nid yw goruchwylio arholiadau yn ddefnydd da o amser ac arbenigedd proffesiynol athrawon.

Er nad oes gofyn iddynt oruchwylio arholiadau allanol bellach fel mater o drefn arferol, mae'n rhesymol i athrawon fod yn bresennol ar ddechrau ac ar ddiwedd sesiynau.

Dylai ysgolion wneud gymaint o ddefnydd â phosibl o staff cymorth fel goruchwylwyr.

2 Amser cynllunio, paratoi ac asesu

Diben y fenter hon yw codi safonau trwy roi amser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu o fewn amserlen pob diwrnod addysgu.

Mae hawl contractiol gan bob athro mewn ysgol, (gan gynnwys penaethiaid), sydd ag amserlen o ymrwymiadau addysgu, i gael sicrwydd o 10% o amser CPA fel lleiafswm. Ni ddylid newid yr amser. Ni ddylid tynnu o'r dyraniad hwn unrhyw amser y bydd athrawon yn ei dreulio yn cyflenwi ar gyfer athrawon absennol.

Mae'n rhaid i amser CPA fod yn rhan o amserlen wythnos neu bythefnos arferol athro yn hytrach nag amser wedi'i hoelio ar gychwyn neu ddiwedd sesiynau disgyblion neu wedi'i ddyrannu mewn blociau o lai na 30 munud.

Mae'r amser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, ond gall athrawon unigol bennu'r blaenoriaethau penodol ar gyfer pob bloc amser.

Os yw ysgol yn dewis defnyddio cynorthwywyr dosbarth i ryddhau athrawon, mae'n rhaid i'r pennaeth wneud yn siŵr bod y cynorthwyydd yn gymwys i wneud hyn.

Ni ddylai athrawon newydd gymhwyso (ANG) addysgu am fwy na 90% o'r amser arferol y byddai disgwyl i athro yn yr ysgol honno addysgu. Mae amser CPA yn ychwanegol at hyn.

3 Amser neilltuedig ar gyfer swydd pennaeth

Dylai cyrff llywodraethol sicrhau bod gan benaethiaid amser wedi'i neilltuo i arwain eu hysgolion, yn ogystal ag i reoli busnes yr ysgol o ddydd i ddydd. Gall hyn fod yn broblem mewn rhai ysgolion lle mae gan benaethiaid lwyth addysgu sylweddol.

Goblygiadau i arolygu

1 Dylai arolygwyr arfarnu'r graddau y mae'r ysgol:

1a yn bodloni'r gofynion statudol cyn belled â bod y diwygiadau yn y cwestiwn;

1b yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y diwygiadau;

1c yn dyrannu ac yn defnyddio adnoddau yn effeithiol ar gyfer ailfodelu;

1ch yn trefnu ac yn gweithredu amser CPA yn effeithiol ar gyfer athrawon;

1d yn rheoli ac yn datblygu staff cymorth yn dda; ac

1dd yn gwneud gwelliannau yn yr addysgu ac yn safonau cyflawniad disgyblion o ganlyniad i'r newidiadau.

2 Effaith barnau arolygwyr ar Gwestiynau Allweddol

Bydd arolygwyr yn llunio barnau ar newidiadau'n ymwneud â'r cytundeb cenedlaethol ar sail:

- archwiliad o'r ddogfennaeth berthnasol;
- arsylwadau a wnaed; a
- thrafodaethau â staff priodol a llywodraethwyr.

Agwedd ar y cytundeb cenedlaethol	Effaith ar Gwestiynau Allweddol
1a A yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol cyn belled â bod y diwygiadau yn y cwestiwn?	Os nad yw ysgol yn bodloni'i rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â'r diwygiadau, bydd hyn fel arfer yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau arolygiad. Mae Estyn wedi rhoi cyfarwyddyd i arolygwyr 'y bydd unrhyw fethiant i gydymffurfio â gofynion statudol fel arfer yn golygu na allwch roi gradd uwch na 3 i'r ysgol am y cwestiwn allweddol perthnasol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gallwch ddyfarnu gradd uwch. Os nad ydych yn siŵr, dylech gysylltu â'r AEMRh perthnasol, Maggie Turford (y blynyddoedd cynnar a chynradd) neu Paul Morgan (uwchradd ac arbennig). Bydd hyn yn cyfeirio'n benodol at ba un a yw'r ysgol yn trefnu ac yn gweithredu amser CPA yn effeithiol ar gyfer athrawon, ac yn ymwneud â: **CA 7 – pa mor effeithlon y mae adnoddau'n cael eu rheoli i gyflawni gwerth am arian**

1b	**A yw'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y diwygiadau?**	Bydd y cwestiwn hwn yn ymwneud yn benodol â: **CA 5 - pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi cyfeiriad clir ac yn hyrwyddo safonau uchel** 5.1.4 pa un a oes arweinyddiaeth gadarnhaol sy'n rhoi synnwyr cyfeiriad clir i waith yr ysgol 5.3.1 pa mor dda mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru **CA 6 - effeithiolrwydd y cynllunio ar gyfer gwelliant** 6.5 a yw arweinwyr a rheolwyr yn pennu blaenoriaethau a chamau clir i sicrhau gwelliant? 6.6.1 yn darparu digon o adnoddau i fodloni'r blaenoriaethau a'r amcanion 6.6.2 yn sefydlu strategaethau â graddfeydd amser penodol a realistig

1c	**A yw'r ysgol yn dyrannu ac yn defnyddio'r adnoddau'n effeithiol ar gyfer ailfodelu?**	Bydd y cwestiwn hwn yn ymwneud yn benodol â: **CA 7 - pa mor effeithlon y mae adnoddau'n cael eu rheoli i gyflawni gwerth am arian** 7.5.1 mae staff yn cael eu defnyddio'n ddarbodus ac yn effeithlon er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser, arbenigedd a phrofiad y staff 7.6.1 pa mor dda y mae penderfyniadau am adnoddau wedi'u cysylltu â blaenoriaethau ac amcanion yr ysgol 7.7.1 mae'r ysgol yn adolygu ei defnydd o adnoddau yn gyson 7.7.2 mae'r ysgol yn cyflawni gwerth am arian
1ch	**A yw'r ysgol yn trefnu ac yn gweithredu amser CPA yn effeithiol ar gyfer athrawon?**	Bydd y cwestiwn hwn yn ymwneud yn benodol â: **CA 7 - pa mor effeithlon y mae adnoddau'n cael eu rheoli i gyflawni gwerth am arian** 7.5.1 mae staff yn cael eu defnyddio'n ddarbodus ac yn effeithlon er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser, arbenigedd a phrofiad y staff

1d A yw'r ysgol yn rheoli ac yn datblygu staff cymorth yn dda?	Bydd y cwestiwn hwn yn ymwneud yn benodol â: **CA 7 - digonolrwydd, addasrwydd a'r defnydd a wneir o staffio, adnoddau dysgu ac adeiladau** 7.1.2 y graddau y mae'r lefel staffio yn galluogi addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol i bob disgybl 7.1.3 pa un a oes digon o staff cymorth â medrau priodol i alluogi addysgu, gweinyddu a bywyd yr ysgol o ddydd i ddydd i weithredu'n effeithiol 7.1.4 y graddau y mae staff cymorth yr ystafell ddosbarth yn gweithio'n effeithiol gydag athrawon wrth gynllunio, addysgu a chofnodi cynnydd disgyblion
1dd A yw'r ysgol yn gwneud gwelliannau yn yr addysgu ac yn safonau cyflawniad disgyblion o ganlyniad i'r newidiadau?	Bydd y cwestiwn hwn yn ymwneud yn benodol â: **CA 1 - pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?** **CA 2 - pa mor dda yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?** Bydd arsylwadau a wnaed yn ystod amser cyflenwi CPA yn cyfrannu at safonau cyflawniad disgyblion ac ansawdd yr addysgu, ac maent yn ymwneud â CA 1 a CA 2. **CA 6 - effeithiolrwydd y cynllunio ar gyfer gwelliant** 6.7.1 mae'r camau a gymerwyd wedi cael effaith gadarnhaol 6.7.2 mae camau wedi arwain at welliant mesuradwy mewn safonau

Ffynonellau tystiolaeth

Mae ffynonellau tystiolaeth i helpu arolygwyr arfarnu effeithiolrwydd y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r cytundeb cenedlaethol fel a ganlyn:

Dogfennau:

- adroddiad hunanarfarnu'r ysgol;
- y cynllun datblygu ysgol;
- polisi staffio a'r strwythur staffio presennol;
- amserlenni;
- dogfennau'n ymwneud â chynllunio gwaith o ddydd i ddydd;
- swydd-ddisgrifiadau athrawon a staff eraill sy'n oedolion, gan gynnwys cynorthwywyr cymorth dysgu;
- agendâu a chofnodion cyfarfodydd gan gynnwys cyfarfodydd staff a chyfarfodydd y bwrdd llywodraethol;
- gwybodaeth am y trefniadau rheoli cyllidebau; a
- gwybodaeth a gafwyd gydol yr arolygiad am reolaeth, ansawdd, trefniant a'r defnydd o adnoddau'r ysgol, yn benodol, staff ac amser.

Arsylwi:

- arsylwadau gwersi, gan gynnwys pan fydd gwaith cyflenwi CPA yn cael ei wneud.

Trafodaeth:

- trafodaethau gyda'r corff llywodraethol, y pennaeth, staff, staff cymorth, disgyblion a rhieni ynghylch y newidiadau'n gyffredinol, ac, yn benodol, y strategaeth ar gyfer amser CPA.